**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**2:00 yh, 28 Mehefin 2017**

**Siambr Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Bryan Owen
Cyng. Kenneth P Hughes
Cyng. Richard O Jones

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Owain Williams
Cyng. Catrin Wager
Cyng. Sian Wyn Hughes
Cyng. Berwyn Parry Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (CG) |
| Dylan Williams | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM) |
| Ffion Madog Evans | Uwch Reolwr Cyllid (CG) |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. Robin Williams (CSYM)
Cyng. Nicola Roberts (CSYM)

**1. ETHOL CADEIRYDD AM 2017 - 2018**

Cafodd Cyng. Richard Dew ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2017 - 2018.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AM 2017 -2018**

Cafodd Cyng. Dafydd Meurig ei ethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2017 - 2018

3. **YMDDIHEURIADAU**

Fel a nodwyd.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

6. **COFNODION**

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 26 Mehefin 2016 fel y rhai cywir ac fe wnaeth y Cadeirydd eu harwyddo.

7. **CYFRIFION TERFYNOL A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Ffion Madog Evans a oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd.

Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân.

Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig, sef Deloitte, (archwilwyr allanol a benodwyd gan Gyngor Gwynedd) yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2017 (cyn iddo gael ei ardystio gan yr Archwiliwr) oni bai bydd angen tynnu sylw'r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig.

Materion a godwyd:

i. Beth oedd cyfanswm y gost o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – nid oedd y manylion penodol gan y swyddogion. Er hynny, cyfeiriwyd at adroddiadau a gyflwynwyd yn flaenorol a oedd yn cyfeirio at y costau. Nodwyd bod cyfanswm y gost heb gynnwys costau staff oddeutu £1,000,000 a rannwyd rhwng y ddau Gyngor.

ii. Cyfeiriwyd at y ffaith bod llai o arian wedi ei wario ar elfennau fel yr Archwiliad Cyhoeddus ac argraffu. Nodwyd mai'r rheswm am hynny oedd nad ydi'r broses wedi dod i ben yn llwyr eto. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn ag cyllid ar gyfer cwblhau'r broses yn ystod 2017 – 2018, derbyniwyd cadarnhad bod costau cwblhau'r broses wedi cael ei gynnwys ym mhroffil gwariant 2017 – 2018.

iii. Holwyd beth oedd cynnwys y ffigwr gwariant 'Costau Staffio Eraill'? Esboniwyd fod y gwariant yma yn costau diswyddiad.

Fe gafodd y dogfennau perthnasol eu harwyddo gan y Cadeirydd ar ran Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

8. **CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Cyflwynwyd darnau allan o'r Gytundeb sy'n bodoli rhwng y ddwy Sir ynglyn â'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Nodwyd bod llawer o'r tasgau wedi cael eu cwblhau oherwydd bod y broses paratoi'r Cynllun bron a dod i ben. Er hynny, bydd gan y Pwyllgor swyddogaeth yn gysylltiedig â phenderfynu ar gynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol a'r gwaith i fonitro gweithrediad polisïau os penderfynir i fabwysiadu y Cynllun.

'Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddyddiadau a oedd yng nghalendr pwyllgorau'r Cynghorau. Tynnwyd sylw'r Aelodau at gyfarfod ychwanegol sy'n cael ei drefnu ar 14 Gorffennaf 2017.